

Cymru

Uchafbwyntiau ariannol y flwyddyn yn gorffen
31 Mawrth 2009



- **Roedd refeniw o Ystâd y Goron yng Nghymru yn £3.6 miliwn, cynnydd o £500,000, neu 15.2% dros yr un cyfnod y llynedd**
- **Mae refeniw o Ystâd y Goron yng Nghymru yn cynrychioli 1.2% o gyfanswm Ystâd y Goron**
- **Cyfanswm gwerth eiddo Ystâd y Goron yng Nghymru oedd £30 miliwn, cynnydd o 5.5% dros yr un cyfnod y llynedd**
- **Mae cyfanswm gwerth eiddo Ystâd y Goron yng Nghymru yn cynrychioli 0.5% o gyfanswm Ystâd y Goron**

Refeniw	Ystâd y Goron Cymru		Ystâd y Goron	Cynnydd ar y flwyddyn flaenorol	% o'r cyfanswm
	12 mis hyd at 31 Mawrth 2009 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 months to 31 March 2009 £miliwn		
Refeniw sy'n cael ei gydnabod yn y cyfrif incwm	3.6	3.1	304.2	15.2%	1.2%
Gwarged gros	3.3	3.1	243.2	6.2%	1.4%


Eiddo	Ystâd y Goron Cymru		Ystâd y Goron	Cynnydd ar y flwyddyn flaenorol	% o'r cyfanswm
	12 months to 31 March 2009 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 months to 31 March 2009 £miliwn		
Gwerth eiddo	30.0	28.4	551.3	5.5%	0.5%

Trafodion eiddo	Ystâd y Goron Cymru		Ystâd y Goron	Cynnydd ar y flwyddyn flaenorol	% o'r cyfanswm
	12 months to 31 March 2009 £miliwn	12 mis hyd at 31 Mawrth 2008 £miliwn	12 months to 31 March 2009 £miliwn		
Buddsoddiadau cyfalaf	0.4	0.2	346.2		
Derbyniadau cyfalaf	0.1	0.5	166.1		

Refeniw fesul gweithgareddau

Y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2009 (£miliwn)


- A Amaethyddiaeth – 0.4
- B Mwynau – 1.3
- C Morol/Blaendraeth – 1.5
- D Adnewyddadwy – 0.4



Gwerth eiddo fesul gweithgareddau

Y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2009 (£miliwn)

- A Amaethyddiaeth – 5.8
- B Mwynau – 2.6
- C Morol/Blaendraeth – 18.7
- D Adnewyddadwy – 2.9



Ystâd y Goron yng Nghymru

Mae Ystâd y Goron yn gadarn ei hymrwymiad i Gymru ac i safonau uchel o reoli ar draws ein holl ystadau. Rydym yn chwarae rhan bwysig ym mywyd Cymru gyda buddiannau yn yr ystadau gwledig traddodiadol a chyfluoedd newydd yn ein hystadau arfordirol a morol.

Ein huchelgais yw gweithio gyda Chymru, gan gynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflawni eu hamcanion. Gwyddom fod Cymru'n newid a bod yn rhaid i ninnau newid gyda hi, yn yr un ffordd â sefydliadau eraill. Rhaid i'r ffordd rydym yn gweithio ar draws y DU ymateb i ddeinameg datganoli.

Mae gan Gymru amgylchedd cyfoethog ac amrywiol y mae'n rhaid ei warchod a'i wella, ar gyfer heddiw yn ogystal ag ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gennym ddwy ystâd yng Nghymru: yr ystâd wledig a'r ystâd forol.

Ystâd wledig Cymru

Ar yr ystâd wledig, mae ein cyfrifoldeb am ystadau a thir comin yn ein clymu ni wrth gymunedau gwledig traddodiadol. Gwyddom fod rhai o'r rhain yn gweld newid economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyflym, yn wynebu heriau unigryw ac yn gorfod addasu i amgylchiadau newydd.

Mae'r newidiadau hyn yn cyflwyno heriau a chyfluoedd. Wrth wynebu'r rhain, credwn y bydd stiwardiaeth Ystâd y Goron yn parhau i fod yn hollbwysig. Ein hamcan bob amser yw cynllunio ar gyfer y tymor hir, gan adael gwaddol o fuddsoddiad cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Ystâd y Goron yn sicr yn rhan o'r gymuned wledig yng Nghymru. Mae gennym dri daliad amaethyddol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol: Aberystwyth, 37 hectar (91 erw) o dir ar gyfer Prifysgol Aberystwyth at ddibenion ymchwil; Pumlumon, 1185 hectar (2929 erw) sy'n cynnwys dau ddaliad amaethyddol; Tyndyrn, 70 hectar (175 erw) sy'n cynnwys buddiannau mwynol sylweddol ac adfail Abaty Tyndyrn ar lan orllewinol Afon Wysg. Er mwyn diogelu Abaty Tyndyrn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, rhoddodd Ystâd y Goron yr Abaty yng ngofal CADW dan gytundeb rheoli hirdymor.

Gan mai tir comin, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio i bori defaid, yw llawer o'n heiddo yng Nghymru, y rheolwyr tir lleol sy'n cael cyswllt o ddydd i ddydd gyda'n tenantiaid. Gydag amser, rydym wedi mabwysiadu ffordd unigryw o weithio yng Nghymru sy'n adlewyrchu traddodiadau a phatrymau rheoli tir lleol.

Gydag oddeutu 250,000 erw (100,000 hectar) o hawliau mwynau ledled Cymru a phrydlesi ar gyfer 11 busnes mwynau, mae cloddio yn weithgaredd pwysig i Ystâd y Goron. Nid yn unig y mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu deunyddiau crai pwysig ar gyfer adeiladu a diwydiant, maent hefyd yn creu nifer fawr o swyddi yn lleol. Nid ydym yn cyfrannu'n uniongyrchol at y broses ymarferol o fwyngloddio; mae ein tenantiaid yn gyfuniad o gwmnïau rhyngwladol mawr ac ambell i gwmni bach lleol.

Mae'r amgylchedd a'r effaith ar dirwedd Cymru'n ystyriaethau pwysig i Ystâd y Goron; rhaid i chwareli weithredu yng nghyd-destun ystyriaethau amgylcheddol cynyddol fanwl. Mae amodau cynllunio yn mynnu safonau uchel o weithio ac ategir hyn gan arolygon rheolaidd ein hasiantiaid mwynau o dan raglen archwiliadau amgylcheddol Ystâd y Goron.

Dros y canrifoedd diwethaf, mae Ystâd y Goron a'i rhagflaenwyr wedi rhoi caniatâd i lawer o weithgareddau mwynol ledled Cymru, gweithfeydd ar raddfa fechan yn draddodiadol. Mae gennym gyfrifoldeb dros rai hen weithfeydd mwyngloddio sydd bellach yn segur ac, ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod yn cynnal rhaglen yn rheoli peryglon amgylcheddol, gweithfeydd trin peryglon, ffensio pyllau mwyngloddio a monitro parhaus ar y safleoedd hyn er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Yn anorod, oherwydd eu lleoliad, mae llawer o safleoedd naill ai'n destun dynodiadau cadwraeth neu wedi dod yn gynefin pwysig i ystumod neu greaduriaid gwarchoddedig eraill. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a CADW i ofalu am y safleoedd hyn gan gadw cydbwysedd rhwng blaenoriaethau diogelwch a chadwraeth. Mae hyn yn rhan o raglen ehangach o waith gyda CCGC ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ardaloedd tebyg sydd o ddiddordeb ledled Cymru.

Mae dyddodion aur ac arian - y "Mines Royal" - yn eiddo i Ystâd y Goron ble bynnag y maent yn y DU a gellir eu dal yn annibynnol ar berchnogaeth o'r arwyneb. Gellir cloddio am y rhain yn annibynnol neu fel mwyn cysylltiedig â dyddodion eraill. Yn y gorrffennol, cafwyd gwaith cynhyrchu masnachol mewn lleoedd fel Gwynfynydd a'r Clogau. Heddiw, ychydig iawn o fwyngloddio sy'n digwydd, er bod panio am aur yn parhau fel gweithgaredd 'hamdden'. Mae aur o Gymru yn parhau i fod yn boblogaidd ym mhedwar ban byd, ac mae hyn yn denu twristiaid ac yn creu swyddi.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae ein hymrwymiad fel tîr feddiannwr gwledig yn parhau, gan roi'r pwys mwyaf ar ein hatebolrwydd i'n ffermwyr tenant, i'r dirwedd wledig a'r amgylchedd.

Ystâd forol Cymru

Mae ein hystâd forol yn unigryw, ac rydym yn berchen hyd at 12 milltir fôr o wely'r môr o amgylch y DU, a 65% o flaendraeth Cymru. Mae'r ystâd arforol wedi'i rhannu'n ddeg, sef Mynwy, Morgannwg, Caerfyrddin, Penfro, Ceredigion, Meirionnydd, Caernarfon, Ynys Môn, a Flint a Dinbych.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y dasg o sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar arfordir campus Cymru a'i hasedau ar wely'r môr yn fwyfwy pwysig. Yr her yw sicrhau bod cydbwysedd rhwng blaenoriaethau amgylcheddol a chyfluoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy a chynhyrchu ynni.

Mae hyn yn golygu ein bod yn cydweithio'n agos â phob math o ddiwydiannau morol fel harbws, porthladdoedd, marinas a ffynonellau ynni ar y môr. Rydym yn deall anghenion y diwydiannau hyn yn llwyr, a'r cydbwysedd rhyngddynt â buddiannau defnyddwyr eraill y dyfroedd fel grwpiau hamdden a chadwraeth.

Mae fferm wynt ar y môr North Hoyle, y gyntaf yng Nghymru ar waith ers 2003, gyda 30 o dyrbinau'n cynhyrchu digon o ynni ar gyfer 40,000 o gartrefi bob blwyddyn. Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar Draethellau'r Rhyl (oddi ar arfordir Bae Colwyn yn y gogledd), ac unwaith y bydd y tyrbinau'n gweithio, byddant yn cynhyrchu digon o ynni gwyrdd i ddiwallu anghenion 61,000 o gartrefi. Mae'r ddau brosiect hyn yn rhan o'r Rownd gyntaf o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr. Mae prosiect Rownd 2 Gwynt y Môr wedi derbyn pob caniatâd gan y Llywodraeth, a bydd y gwaith datblygu'n dechrau yn 2011.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n gryf i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy amrywiol, fel y nodir yn nogfen 'Cymru'n Un' Llywodraeth y Cynulliad, a bydd ynni gwynt ar y môr yn elfen allweddol wrth leihau golyngiadau nwyon carbon deuocsid.

Gall ynni gwynt ar y môr ac ynni adnewyddadwy droi Cymru'n wlad gyfoethog o ran ynni, gan gyfrannu'n fawr at gyfanswm ynni'r DU a gynhyrchir gan ffynonellau adnewyddadwy. Mae angen arbenigedd, profiad a buddsoddiad i wireddu'r cyfluoedd hyn. Fel stiwardiaid gwely'r môr tiriogaethol sydd wedi hyrwyddo'r ddwy rownd gyntaf o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr yn y DU, bydd Ystâd y Goron yn chwarae rhan lawn wrth helpu Cymru i wneud y gorau o'r adnoddau hyn.



Uchod Fferm wynt ar y môr.

Isod Gwarchodfa Adar RSPB Cymru, Conwy, a gefnogir gan Raglen Stiwardiaeth Forol Ystâd y Goron.



Ystâd y Goron sy'n berchen hawliau mwynol ar neu o dan wely'r môr, o'r glannau i sgafell gyfandirol y DU, ac eithrio olew a nwy. Rydym yn gweithredu fel tîrfeidiannwr. Rydym yn cyflwyno trwyddedau i echdynnu gro pan fydd cais gan gwmi masnachol wedi cael sêl bendith y rheoleiddwyr - sef Llywodraeth y Cynulliad yma yng Nghymru.

Fel stiwardiaid y môr, rydym yn buddsoddi mewn ymchwil i waith treillio ac effeithiau hynny, ac yn adolygu'r dystiolaeth wyddonol yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion gorau. Mae effaith treillio ar draethau ac ar yr arfordir o ddi-ddordeb mawr i ni. Ar hyn o bryd, ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i'r fei sy'n cysylltu treillio trwyddedig â'r erydu cynyddol neu gollu deunyddiau o draethau.

Credwn y bydd y sector morol yng Nghymru a gweddill y DU yn tyfu yn y blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn gyfle da iawn i fuddsoddi'n economaidd a bydd cyfleoedd i gymunedau hefyd, ac rydym yn bwriadu hyrwyddo a datblygu hyn ymhellach. Gall hyn esgor ar swyddi a sgiliau newydd, gan wneud cyfraniad pwysig i'r economi ac i dargedau newid yn yr hinsawdd yng Nghymru a'r DU.

Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn edrych ymlaen at feithrin cysylltiadau cryfach â Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid gwleidyddol, a chydweithio â nhw ar faterion morol a gwledig. Rydym yn credu ein bod yn rhan allweddol o'r broses o lunio polisiau yn y meysydd hyn, a hwyluso'r broses o'u rhoi ar waith.

Mae ein dyhead i feithrin cysylltiadau a phartneriaeth bellach â Chymru wedi arwain at baratoi'r adroddiad hwn, ac yn brawf o ymrwymiad Ystâd y Goron i'r perwyl hwn.

Ffeithiau allweddol

- Cafodd Marina Deganwy ei brynu gan Ystâd y Goron yn 2007. Wedi'i brydlesu i gwmi Quay Marinas, Deganwy oedd y buddsoddiad uniongyrchol cyntaf a wnaeth yr ystâd forol mewn marina. Mae gan Ystâd y Goron fuddiant ym marinas mawr Conwy a Phwllheli hefyd.
- Un ffynhonnell incwm yw Aberdaugleddau, sy'n cynnwys porthladd, glanfa a Marina Neyland.
- Mae arfordir Penfro yn cael ei reoli trwy ddwy brydles rheoleiddio i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro
- Mae fferm wynt ar y môr North Hoyle, y cyntaf o'i bath yn nyfroedd Cymru, ar waith ers 2003, gyda 30 tyrbîn yn cyflenwi ynni blynyddol i 40,000 o gartrefi.

Mae dau brosiect arall ar Draethellau'r Rhyl a Gwynt y Môr wedi cael caniatâd cynllunio, ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar Draethellau'r Rhyl.
- Mae eiddo gwledig Ystâd y Goron yng Nghymru yn dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg. Maent yn cynnwys 10 o ystadau gwledig gan gynnwys 3,770 erw (1,525 hectar) o dir amaeth a 66,500 erw (26,900 hectar) o dir comin Cymreig.
- Mae Ystâd y Goron yn berchen ar 245,000 erw (99,000 hectar) o safleoedd mwynol hefyd: rydym yn gosod tri safle ar gyfer chwarela yng Ngwynedd a Sir y Fflint. Mae Ystâd y Goron hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo mwyngloddiau aur ac arian yn y DU.
- Trwy'r Rhaglen Stiwardiaeth Forol, rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ymarferol sy'n cyfrannu at stiwardiaeth dda ar hyd a lled arfordir y DU. Mae prosiectau Cymru yn amrywio o gyfleusterau newydd i ymwelwyr Gwarchodfa Adar RSPB Cymru yng Nghonwy, i brynu cwch er mwyn helpu i oruchwylio ardaloedd cadwraeth Bae Ceredigion ac aber afon Teifi.

Mae Ystâd y Goron yn rheoli amrywiaeth eang iawn o bortffolio eiddo ledled y DU, ar ran y genedl.

Rydym yn cyflawni'r amcanion a bennwyd gan Senedd San Steffan: rydym yn ennill arian dros ben er budd trethdalwyr y DU, ac yn gwella gwerth yr ystadau rydym yn eu rheoli.

www.thecrownestate.co.uk